




## YFORY : Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion

Dymuniadau gorau i bawb sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod Rhanbarth yfory. Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau. Dwi eisoes wedi rhannu'r rhaglen a'r llythyr drwy e-bost, ond dyma nhw eto er gwybodaeth: gweld rhaglen
gweld llythyr

Y cystadlaethau torfol fydd yn ymddangos yfory yw'r Côr, Grŵp Llefaru, Perfformio Sgript a Chân Actol. Dymuniadau gorau hefyd i Beca, Eila, Matilda, Casi a Heulyn a fydd yn cystadlu yn unigol yn eu cystadlaethau hwy. Mwynhewch!
Prynu tocynnau

## *TOMORROW: Ceredigion County Eisteddfod*

*Best wishes to everyone competing in the Regional Eisteddfod tomorrow. The Eisteddfod will be held in the Great Hall, Aberystwyth Arts Centre. I have already shared the programme and letter through e-mail, and here they are again FYI:* see programme
see letter

*The group competitions taking place tomorrow are the Choir, Recitation Group, Performing a Script, and Action Song. Best wishes also to Beca, Eila, Matilda, Casi and Heulyn who will be competing individually in their own competitions.*
Buy tickets

---




## Celf a Chrefft yr Urdd

Y thema eleni yw 'Breuddwydion'. Dyma'ch hatgoffa o ddyddiadau pwysig yr Adran Celf a Chrefft ar gyfer Eisteddfod yr Urdd eleni, sef cofrestru erbyn 20/04/2026 (dydd Llun) ar y Porth Y PORTH ; yna dod â'r cynnyrch i'r ysgol erbyn bore dydd Llun y 27/04/2026 at Mrs Buddug Davies er mwyn iddi fynd â nhw i'w beirniadu yn Felinfach yn y prynhawn. Mae'r Urdd wedi rhannu'r map syniadau yma i'ch helpu.

## *Urdd Art and Craft*

*This year's theme is 'Dreams.' This is a reminder of the important dates for the Art and Craft Department for this year's Urdd Eisteddfod: registration must be completed by 20/04/2026 (Monday) on the Portal; then bring your work to school by the morning of Monday 27/04/2026 to Mrs Buddug Davies so that she can take them to be judged in Felinfach in the afternoon. The Urdd has shared this mind map to help you.*

---



Asesiadau personol

## Asesiadau Personol

Yn ystod yr hanner tymor hwn bydd disgyblion Blynyddoedd 2–6 yn cwblhau Asesiadau Personol Darllen a Rhifedd ar Hwb. Bwriad yr asesiadau hyn yw cefnogi dysgu'r plant a'n helpu i ddeall (i) beth maent yn gallu ei wneud; (ii) beth sydd angen ei ddatblygu; a (iii) beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Nid 'prawf' yw'r rhain, a byddwn yn gwneud ein gorau i beidio â chynhyrfu'r plant yn eu cylch. Gofynnwn yn garedig i chi gefnogi hyn gartref drwy dawelu meddyliau unrhyw blentyn sy'n poeni amdanynt.

## *Personal Assessments*

*During this half term, pupils in Years 2–6 will complete Personalised Assessments in Reading and Numeracy on Hwb. The purpose of these assessments is to support children's learning and to help us understand (i) what they can do; (ii) what needs to be developed; and (iii) what the next steps are in their learning. These are not 'tests', and we will do our best to ensure that the children do not feel anxious about them. We kindly ask for your support at home in reassuring any child who may be worried about them.*

## Mabolgampau Ysgol



Byddwch wedi sylwi nad ydym wedi cadarnhau dyddiad Mabolgampau'r Ysgol eleni eto, a hynny oherwydd y posibilrwydd y bydd y gwaith ar adeiladu'r Estyniad newydd yn cychwyn ddiwedd Mai/dechrau Mehefin. Mae'n bosib y bydd ein Mabolgampau yn hwyrach na'r arfer felly, ac mae'n debygol iawn y bydd y fformat yn wahanol i'r arfer. Diolchaf i chi ymlaen llaw am eich amynedd gyda hyn.

## *School Sports Day*

*You may have noticed that we have not yet confirmed a date for this year's School Sports Day, and this is due to the possibility that work on building the new extension may begin in late May/early June. It is therefore possible that our Sports Day will be later than usual, and it is very likely that the format will be different from last year. Thank you in advance for your patience with this.*

---

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – C.Rh.A


## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A

---




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig Tymor yr haf 2026:

- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd : Mai 23 – 29ain
- Tynnu lluniau dosbarthiadau : Mehefin 10fed
- Mabolgampau Ysgol : ~~Mehefin 11eg~~ (ail-drefnu)
- H.M.S : Mehefin 22ain (Dydd Llun)
- Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf 16eg
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 17eg

### *Summer term 2026 important dates:*

- *Urdd National Eisteddfod : May 23 – 29th*
- *Class photographs : June 10th*
- *School Sports Day : ~~June 11th~~ (rearrange)*
- *I.N.S.E.T Day : June 22nd (Monday)*
- *PTA Barbeque/Summer Festival : July 16th*
- *Last day of term : July 17th*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**17/04/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru





Criced i blant : addas i bl.1a2

*Cricket for children : suitable for yrs.1&2*

https://ecb.clubspark.uk/AllStars/aberystwyth/Course/fe7a80fd-527a-4952-88df-5cff6ab7f297




Mae'r treialon ar agor i **Flynyddoedd 7 ac 8 (o fis Medi 2026)** ar gyfer y **garfan U13**.

*Trials are open to **Years 7 and 8 (as of Sep 2026)** for the **U13 Squad.***

